UK Association for Music – Music Mark
www.musicmark.org.uk

CEFNOGI CYSYLLTU DYLANWADU

Atodiad Cymru

30 Awst 2021 (diweddarwyd y cyfarwyddyd ar 27ain Awst 2021)

Mae Cymru gyfan ar lefel rhybudd 0. Nid oes cyfyngiadau ar nifer y bobl a all ymgynnull. Nid yw masgiau'n ofynnol mewn ysgolion ond gallant gael e
u hannog mewn ardaloedd cyffredin. Dylid cadw pellter cymdeithasol gymaint ag sy'n bosibl.

Yn yr ysgol, gallwch:

- Ailddechrau gweithgareddau cerddorol yn yr ystafell ddosbarth, fel yr oedd hyd at fis Mawrth 2020 (nid oes dim yn y cyfarwyddyd yn cyfyngu ar hyn)
- Ailddechrau gweithgareddau wedi'u goruchwylio i blant heb gyfyngiadau ar niferoedd (Gweithrediadau ysgolion)
- Croesawu athrawon peripatetig (sy'n ymweld) i'r ysgol (Atal – Ystyriaethau eraill)
- Cymysgu grwpiau (Gweithrediadau ysgolion "Er na chynghorir ysgolion i gynnal grwpiau cyswllt")
- Cynnig ymweliadau addysgol, gan gynnwys teithiau preswyl, yn y Deyrnas Unedig, er y dylid cadw amser teithio mor fyr â phosibl (Cludiant ysgol – Ymweliadau addysgol)

Ar gyfer gweithgareddau y tu allan i'r ysgol gallwch:

- Gynnal gweithgareddau y tu allan i'r ysgol fel oeddech hyd at fis Mawrth 2020 (nid oes dim yn y cyfarwyddyd sy'n cyfyngu ar hyn)
- Cynnal grwpiau mwy a grwpiau cymysg, er y dylid gwneud hyn yn ofalus (2. Amnewid – Rheoli cysylltiadau)
- Cynnal ymweliadau dydd addysgiadol, er y dylid cadw amser teithio mor fyr â phosibl (2. Amnewid – Mynd ar deithiau y tu allan i'r lleoliad)
- Croesawu ymwelwyr **hanfodol** yn unig (2. Amnewid – Ymwelwyr)

Ni allwch:

- Nid oes gweithgareddau sydd wedi'u cyfyngu ar hyn o bryd. **Mae hyn yn cynnwys unrhyw weithgareddau a allai fod wedi'u cyfyngu dros y deunaw mis diwethaf**.

Rydym yn argymell eich bod yn:

- Adolygu eich asesiadau risg ar gyfer pob lleoliad neu ofod
- Cyfyngu ar gysylltiadau a chynnal pellter cymdeithasol yn unol â lefel rhybudd 0 ((Atal – Cadw pellter cymdeithasol)
- Addysgu yn yr awyr agored pryd bynnag y bo'n bosibl (Atal – Optimeiddio'r gofod)
- Parhau i wirio'r niferoedd yn y gofodau'n ofalus i sicrhau bod yr awyru'n ddigonol
- Sicrhau trefniadau hylendid dwylo a glanhau o safon uwch
- Diweddaru cynlluniau wrth gefn i alluogi i gamau lliniaru gael eu codi a'u gollwng
- Cynnal y gallu a chynlluniau i addysgu o bell, o leiaf
  am flwyddyn academaidd 21/22

Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

Briffio timau addysgu

Gallai fod yn ddefnyddio i chi rannu rhai o'r pwyntiau canlynol wrth siarad gydag athrawon neu diwtoriaid ar ddechrau'r tymor.

Paratowyd *Datgloi Cerddoriaeth* gan ddefnyddio cyfarwyddyd diweddaraf Llywodraeth Cymru. Mae'n rhoi ystyriaeth i brif astudiaethau Covid-19, gan gynnwys astudiaeth PERFORM y Deyrnas Unedig ac ymchwil Colorado a ariannwyd yn rhyngwladol.

Hyd yma, nid yw Music Mark yn ymwybodol o unrhyw achos o Covid-19, heb sôn am frigiad o achosion, sydd wedi'i gysylltu ag addysg cerddoriaeth yn ysgolion y DU neu'r tu allan i'r ysgol.

Er ei bod yn debygol bod y brechu helaeth wedi lleihau'r tebygolrwydd o achos positif mewn unrhyw grŵp o bobl, mae'n dal yn bosib i'r firws gael ei drosglwyddo yn yr ystafell ddosbarth, felly wrth gynnal gweithgarwch mae angen rheoli risgiau:

- Trosglwyddo drwy'r aer (aerosol), a gaiff ei reoli'n bennaf drwy gadw pellter ac awyru;
- Trosglwyddo drwy gyffwrdd ag arwynebau (ffomid), a gaiff ei reoli drwy hylendid dwylo a glanhau'n rheolaidd.

Mae'r asesiadau risg wedi'u diweddaru ond cyfrifoldeb y sawl sy'n arwain y gweithgarwch yw dilyn y camau lliniaru sydd wedi'u nodi yn yr asesiad risg (neu'r Cynllun Gwaith Diogel) ac addasu sut maent yn darparu'r gweithgarwch mewn ymateb i'r sefyllfa go iawn.

Er nad ydynt wedi'u cysylltu â heintiadau'n flaenorol, mae staff peripatetig (sy'n ymweld) yn dal i fod yn bont bosibl rhwng gwahanol ysgolion ac mae'n rhesymol iddynt gymryd camau ychwanegol. Gallai'r rhain gynnwys gwisgo masg mewn ardaloedd cyffredin o'r ysgol megis coridorau, yn arbennig os ydynt yn symud o amgylch yr ysgol ar adegau prysur, e.e. wrth i ddisgyblion gyfnewid rhwng gwersi.

Gallai fod angen ailgyflwyno rhai mesurau neu gyfyngu ar weithgareddau penodol pe byddai brigiad o achosion yn lleol. Mae cynlluniau yn eu lle i godi (a gollwng) camau lliniaru mewn ffordd sy'n galluogi i addysg cerddoriaeth i blant barhau.

Mae'r holl arwyddion yn awgrymu bod Covid-19 yn parhau i fod yn haint ysgafn i'r rhan fwyaf o blant: mae'n dal i fod yn wir mai'r oedolion yn yr ystafell sydd, mwy na thebyg, yn fwyaf bregus a dylent ymddwyn yn unol â hynny (o fewn rheswm).

Cyfarwyddyd:

Dylech osgoi argraffu neu e-bostio dogfennau cyfarwyddyd, am fod y fersiynau diweddaraf bob amser ar-lein. Dilynwch y cyfarwyddyd sy'n cyd-fynd agosaf ag ysbryd a bwriad yr hyn a wnewch, gan y gallai fod yn amhosibl ceisio cydymffurfio â mwy nag un ddogfen gyfarwyddyd.

Ysgolion ac addysg

Music Mark: Datgloi Cerddoriaeth – rhifyn 21/22 i'r DU gyfan
LlC: Cyfarwyddyd gweithredol ar y coronafeirws (Covid-19) i ysgolion (diweddarwyd 27ain Awst)
LlC: Gofal Plant (diweddarwyd ar nifer o ddyddiadau yn ystod mis Awst)

Grwpiau oedolion:

Making Music: Can my group get back to in-person activities? (Sgroliwch i'r gwaelod a chliciwch drwyddo)